

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwen Evans (Saron) a Clwyd Rogers (Llanefydd) a'r teulu oll ym marwolaeth eu chwaer, Nellie Jones. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Bryn a Caerwyn Lloyd (Llansannan) a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu mam, Olwen. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio am Amy Evans (Llanfair) a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n dal yn yr ysbyty. Hyderwn bod y ddwy yn gwella ac yn cryfhau ychydig bob dydd. Parhawn i weddio drostynt a thros bawb arall o'n plith sy'n cael gofal arbennig ar hyn o bryd. Cofiwn hefyd am eu teuluoedd, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad hwythau.
- Llongyfarchiadau i Llyr a Sioned Ames (Groes) ar enedigaeth eu hail ferch, Mared Lois, chwaer fach i Erin. Llongyfarchiadau hefyd i Delyth Roberts (Llanefydd) a Matt ar enedigaeth Siwan Elin. Dymunwn fendith Duw ar y ddau deulu a diolchwn am Ei ddaioni yn eu hanes.

I ddod

- Bydd cyfarfod i ddechrau trefnu **Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog nos Lun, Chwefror 4ydd am 6.00. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r babel hon wedi bod yn un o'r rhai prysuraf ar Faes yr Eisteddfod gan gynnig croeso a hafan i filoedd dros yr wythnos. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i'r cyfarfod.
- **Penwythnos Ieuenctid yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 12fed-15fed. Pris gwreiddiol yn £75 y plentyn a £37.50 ar gyfer ail blentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £20 i'r plentyn cyntaf o bob teulu a £10 i'r ail blentyn. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r Coleg **yn y dyddiau nesaf** i sicrhau lle.
- **Adnabod DAWN:** Sesiynau nesaf - Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos lau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Ionawr 2013

Darlleniad y Dydd

Exodus 6: 2-9

(BCND tud.54 / BCN: tud.49)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Mae 'na flas ar dân o hyd a chynhesrwydd aelwyd – gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel yn yr eira a'r rhew. Diolch am gael y ffyrdd yn glir a phob cyfleustra arferol, y postmon a'r siopau, a'r gallu i fynd a dod i fwydo'r anifeiliaid a mynd a dod i'r gwaith. Bu'r paratoi a'r graeanu'n effeithiol iawn a'r loriâu allan yn y bore bach yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu symud yn hwylus. Diolch am hynny.

Ydach chi'n brofiadol o'r adegau hynny pryd y bydd llwybrau ein gweddïau yn cael eu rhwystro a ninnau'n meddwl na fedrwn dorri trwodd at Dduw? Fel ffordd sydd wedi ei chau yn yr eira, rydym yn ei chael hi'n anodd symud trwy weddi i gymundeb hefo Duw. Cawn ein digalonni ac weithiau awn mor bell â rhoi'r gorau i weddio'n gyfan gwbl am gyfnod. Mae'r rhwystrau, fel yr eira, fel petai'n ormod i ni i'w symud o'r ffordd. Mae'r lluwchfeydd yn rhy uchel a'r ffordd wedi ei chau. Beth ydi ateb Duw pan fydd hi fel hyn arnom?

Yr aradr eira y mae Duw yn ei anfon i glirio llwybrau gweddi ydi edifeirwch. Edifeirwch yn cael ei yrru gan yr Ysbryd Glân sydd yn agor y ffordd eto at Dduw. Troi oddi wrth ein pechod a throï at Dduw ydi edifeirwch gan gredu fod gan Dduw yr awydd a'r gallu i faddau i ni. Dydi Duw ddim eisiau gweld llwybrau gweddi wedi eu cau chwaith. Mae o'n gwybod am y bendithion sydd ganddo ar ein cyfer ac y mae'n mwynhau ein cwmni ac yn llawen pob tro y byddwn yn ei addoli ac yn gweddïo arno.

Yn y darlleniad heddiw mae cyfeiriad at Dduw yn cofio ei gyfamod. Dyna a wna pan ddaw i glirio'r ffordd atom trwy roi edifeirwch a ffydd i ni. Mae'n cofio iddo ein gwneud ni yn bobl iddo, a'i fod yn Dduw i ni trwy'r cyfamod newydd yng ngwaed Iesu, cyfamod na all dim rwystro ei fendithion rhag dod atom. Fydd y ffordd ddim ynghau yn hir os cofiwn ninnau pwy yw ein Duw a chryfder ei allu o'n plaid yn Iesu.

Beth am dorri trwodd heddiw felly – torri trwodd at Dduw mewn gweddi? Mae'r ffordd yn glir i'r nefoedd wen!

Edrychwn ymlaen at gwmni Andrew Sturgess o'r Trussell Trust i Oedfa'r Fro heno i sôn am waith y Banciau Bwyd. Gweddïwch drosto a thros y gwaith sydd yn dod â chymaint o help i bobl sydd mewn angen. Diolch i bawb hefyd am eich cyfraniadau tuag at y gwaith o adfer cartrefi ar ôl y llifogydd diweddar ac am eich gweddïau dros y teuluoedd a effeithiwyd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Yn ystod yr oedfa hefyd, cawn gyfle i wrando ar Andrew Sturgess yn siarad am ei waith fel Swyddog Datblygu Banciau Bwyd Gogledd Cymru gyda'r Trussell Trust.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • **Cyfarfod i arweinwyr y grwpiau Adnabod** yn y Granar yn Llansannan am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Yng Nghefn Meiriadog, bydd Oedfa Deulu am 10.30.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cyfarfod Blynnyddol aelodau Eglwys Unedig Llansannan am 7.30.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Rhaglen Dorcas** – Cyfarfod i ferched Llansannan, Tanyfron a Nantglyn yn Festri Llansannan am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno'r rhaglen i'r aelodau.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol am 10.00 ac fe fydd Ywain a Fiona yn cyflwyno Lili i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Iau **Rhaglen Dorcas** – Cyfarfod i ferched Llansannan, Tanyfron a Nantglyn yn Festri Llansannan am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno'r rhaglen i'r aelodau.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes yn 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch R. W. Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.